Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Rheoli Prosiectau TG

Mae Rheoli Prosiectau TG yn darparu dull strwythuredig o 'wneud i bethau ddigwydd' ac wrth wneud hynny, yn galluogi darparu mentrau (prosiectau) i gael eu cyflawni'n brydlon, i safon ac o fewn y gyllideb.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Rheoli Prosiectau TG

Mae Band Eang Cyflym Iawn, ynghyd â datblygiad cyflym y rhyngrwyd a dyfodiad cyfrifiadura cwmwl, wedi ysgogi newidiadau sylweddol ynglŷn â sut mae busnesau'n caffael, gweithredu a chynnal eu systemau TG a'u seilwaith. Mae gwneud newidiadau o'r fath angen gwaith cynllunio manwl a rheolaeth ofalus o roi'r systemau ar waith, symud data a mabwysiadu defnyddwyr. Gellir diffinio'r mathau hyn o newidiadau fel 'prosiectau' a ellir eu 'rheoli' er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus.

Mae Rheoli Prosiectau yn galluogi eich busnes i fwrw ymlaen â mentrau newydd mewn ffordd sy'n eich galluogi i:

- Reoli costau
- Mesur a chadarnhau canlyniadau y cytunir arnynt
- Amserlenni i'w bodloni

Mae'r Canllaw hwn yn gyflwyniad i'r maes hwn.

## Deall

### Beth yw Rheoli Prosiectau?

Mae Rheoli Prosiectau yn darparu dull strwythuredig o 'wneud i bethau ddigwydd' ac wrth wneud hynny, yn galluogi mentrau (prosiectau) i gael eu cyflawni'n brydlon, i safon ac o fewn y gyllideb.

Ceir llawer o fethodolegau Rheoli Prosiectau (e.e. PRINCE2 ac MSP) a rhestrir y prosesau a'r dulliau mwy poblogaidd yn Atodiad 1. Mae safon eich Cynlluniau yn dibynnu ar safon eich Rheolaethau ac mae'r prosesau a'r dulliau hyn yn cyflwyno'r rheolaeth honno a gallan nhw roi iaith gyffredin i staff prosiectau a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw. Gall dilyn methodoleg lawn yn slafaidd arwain at orbenion sylweddol ac mae'n gwbl dderbyniol i gwmnïau llai ddewis yr elfennau hynny sydd fwyaf priodol i'w busnes.

Drwy gymhwyso egwyddorion rheoli prosiectau sylfaenol i hyd yn oed y prosiectau lleiaf, byddwch mewn sefyllfa well o lawer i sicrhau eich bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn brydlon ac o fewn y costau rydych wedi'u pennu. Mae llawer o bobl, yn gywir ddigon, yn credu mai mater o ddefnyddio synnwyr cyffredin strwythuredig yw rheoli prosiectau!

**Mae prosiectau'n amrywio o ran maint ond maent yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin:**

- Cymorth o fewn y busnes (cyfeirir ato fel nawdd fel arfer) sy'n sicrhau bod rheswm dilys dros gynnal y prosiect yn y lle cyntaf
- Cynllun sy'n nodi'r adnoddau gofynnol (deunyddiau a llafur), amserlenni a set o ganlyniadau, y gellir eu costio
- Goddefiannau prosiectau, sy'n nodi i ba raddau y gall y prosiect or - redeg o ran amser neu

- fynd uwchlaw’r gost cyn bod rhyw fath o gamau adferol yn cael eu cymryd
- Adroddiadau sy'n cadarnhau sut mae pethau'n datblygu yn erbyn y cynllun gwreiddiol (ac unrhyw gamau adferol sydd eu hangen)
- Ar ôl cwblhau, cadarnhau bod canlyniadau'r prosiect wedi'u cyflawni

Ar gyfer prosiectau mwy, byddai'n arfer da rhoi rheolaethau mwy ffurfiol ar waith. Efallai na fydd angen y cyfan o'r rhain yn eich busnes chi ond mae'n sicr yn werth deall beth ydyn nhw a'r manteision a ddaw yn eu sgil.

### Nawdd

Byddai achos busnes sy'n cadarnhau manteision y prosiect arfaethedig fel arfer yn cael ei gyflwyno i bwyllgor buddsoddi neu'n uniongyrchol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Byddai cymeradwyo'r achos busnes hwn yn ysgogi’r broses o ddechrau’r prosiect a byddai uwch-reolwr neu Gyfarwyddwr yn cael y cyfrifoldeb dros oruchwylio'r prosiect a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'r Bwrdd.

### Cynllunio

Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, yn ystod cam cynllunio cychwynnol prosiect bydd Dogfen Cychwyn Prosiect yn cael ei pharatoi sy'n nodi:

- Amserlenni, wedi'u rhannu’n gamau rhesymegol
- Meini prawf ansawdd y mae’n rhaid eu bodloni
- Costau a manteision
- Strwythurau cyflwyno adroddiadau
- Y goddefiannau o ran amser a chost y mae'n rhaid i Reolwr y Prosiect eu dilyn

### Cymeradwyaeth

Bydd Bwrdd y Prosiect yn cymeradwyo'r cynlluniau a nodwyd yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect ac yn cadarnhau neu’n diwygio'r goddefiannau a argymhellir gan dîm y prosiect.


O ran prosiectau mawr, bydd Bwrdd y Prosiect yn cwrdd ar ganol pob cam ac ar ddiwedd pob cam i adolygu cynnydd yn ffurfiol a rhoi cymeradwyaeth i barhau â’r prosiect.

### Cyflwyno adroddiadau

Bydd tîm y prosiect yn gweithio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno ac yn paratoi adroddiadau'n rheolaidd; ar gyfer prosiect mawr, byddai'r rhain fel a ganlyn:

- Adroddiadau gwirio wythnosol
- Adroddiadau uchafbwyntiau misol
- Adroddiadau asesu canol a diwedd cyfnod
- Adroddiadau eithrio

Mae offer a systemau cymorth ar gael i gynorthwyo tîm y prosiect a Bwrdd y Prosiect; mae'r systemau'n cynnwys cynnyrch fel MS Project ac IPMS. Mae'r offer hyn yn darparu ’r gallu i lunio pethau megis siart Gantt (gweler isod) sy'n gweithredu fel cymorth amserlennu, gan eich galluogi i weld elfennau gwirioneddol prosiect a’r elfennau sydd wedi'u cynllunio ynghyd â'u dyddiadau dechrau a gorffen.




### Cwblhau

Pan fydd prosiect wedi'i gwblhau dylai noddwr y prosiect gadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon arno a gellir trefnu Adolygiad ar ôl Gweithredu, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y prosiect.

Diben Adolygiad ar ôl Gweithredu yw asesu canlyniadau uniongyrchol a hirdymor y prosiect ac amlygu unrhyw wersi y gellir eu dysgu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Gall Adolygiad ar ôl Gweithredu gymryd amser a dylid cynnal adolygiad o'r fath dim ond os teimlir y bydd y manteision yn fwy na'r gost o'i gynnal, ond gellir sicrhau bod 'gwersi a ddysgwyd' yn cael eu cofnodi a'u cyhoeddi heb lawer o orbenion a dylid annog hyn bob amser.

# Mabwysiadu

## Dechrau Arni

### A oes angen imi ddefnyddio dull rheoli prosiectau yn fy musnes?

Yr ateb bron yn sicr yw oes-y cwestiwn yw i ba raddau. Mae'n bwysig deall pa mor ddibynnol mae eich busnes ar brosiectau. Os yw eich busnes yn gymharol sefydlog, ac mai anaml y mae mentrau newydd yn cael eu cyflwyno, byddai'n amhriodol buddsoddi mewn rhaglen Rheoli Prosiectau integredig ddrud iawn gyda'r holl brosesau cysylltiedig, gofynion adrodd ac ati.

Fodd bynnag, os yw eich busnes yn gyfnewidiol/dynamig iawn a bod cynnyrch a mentrau newydd yn ysgogi eich twf, yna byddai buddsoddiad o'r fath yn rhesymegol ac yn angenrheidiol.

## Penderfyniadau cychwynnol

Os ydych wedi penderfynu bod angen i chi roi disgyblaeth Rheoli Prosiectau ar waith bydd angen ichi benderfynu ar y canlynol:

- Methodoleg briodol ar gyfer eich busnes sy'n fforddiadwy ac sy’n diwallu eich anghenion busnes
- Hyfforddiant priodol ar gyfer eich staff
- Offer cymorth priodol

## Dewis y fethodoleg

Mae nifer mawr o safonau a dulliau i ddewis ohonyn nhw; yn eu plith mae PRINCE2, MSP, APM, PMI, BS6079 a CMMI, ond y diwydiant rydych yn gweithio ynddo sy’n aml yn penderfynu'r dull gorau i'w ddefnyddio. Er enghraifft, os yw eich cwmni'n gweithio'n bennaf gyda'r Gwasanaeth Sifil neu Lywodraeth Leol, yna'r methodolegau allweddol fydd PRINCE2 ac MSP. Ar y llaw arall, efallai eich bod yn tendro gyda chontractwr adeiladu mawr sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl isgontractwyr gael eu hachredu i safon BS6079 a rhyng-gysylltu ar brosiectau drwy ddefnyddio dulliau’r broses CMMI.

## Hyfforddi eich staff

Os ydych yn bwriadu defnyddio un o'r dulliau mwy ffurfiol yna dechreuwch drwy wneud y canlynol:

- Cadarnhau pwy fydd yn gweithio ar brosiectau a'u rolau
- Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi i bennu’r canlynol:
  - Y math o hyfforddiant sy'n ofynnol
  - Yr amser allan o'r swyddfa
  - Y costau cyffredinol
- Dylech gynnwys y costau a'r gweithgarwch hyn yn eich cynllun cyffredinol

## Dewis offer cymorth

Dylid ystyried maint y prosiectau a faint mae eich busnes yn dibynnu ar rannu gwybodaeth a chanlyniadau. Mae defnyddio offer cymorth prosiectau a'r manteision a ddaw yn eu sgil yn cael eu trafod mewn canllaw arall yn y gyfres hon.

## Sut dylwn i fynd ati i adolygu fy mhrosiectau busnes?

Dechreuwch drwy restru unrhyw brosiectau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac ystyriwch yr amser a dreulir gan y staff ar bob un:

- Adolygwch yr achosion busnes a phennu pa gyfran o'ch trosiant a'ch elw y maen nhw’n ei chynrychioli
- Edrychwch ar brosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar a phenderfynwch a wnaethon nhw gadw at amser ac o fewn y gyllideb, a chyflawni yn ôl y disgwyl
- Os oes rhyw fath o Adolygiad ar ôl Gweithredu wedi'i gwblhau, gallai hyn ddarparu adborth gwerthfawr

### Sut mae penderfynu a ddylai menter neu syniad da gael ei ddatblygu'n brosiect?

Yr adeg fwyaf cost effeithiol i atal prosiect yw cyn ichi ddechrau arno–felly mae angen cynnal adolygiad beirniadol iawn o brosiectau posibl cyn ichi benderfynu neilltuo amser ac ymdrech yn eu datblygu.

Yn Atodiad 3 rydym wedi cynnwys cyfres o gwestiynau a allai eich cynorthwyo o ran adolygu syniadau da a mentrau yn gynnar iawn. Cafodd y rhain eu datblygu'n wreiddiol gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac maen nhw'n rhestr wirio wych pan fyddwch yn penderfynu ar hyfywedd prosiect newydd.

Drwy ddilyn egwyddorion sylfaenol rheoli prosiect rydych yn fwy tebygol o sicrhau bod unrhyw brosiectau y byddwch yn ymgymryd â nhw yn cyd-fynd ag amcanion eich busnes, yn mynd i'r afael â'r amcanion a nodwyd ac, felly, eu bod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i'ch busnes.

Mae costau'n cael eu rheoli'n fwy effeithiol gyda barn glir ar unrhyw wyro o ymdrech, amserlenni a gwariant a gynlluniwyd.

Drwy ganolbwyntio ar risg ar gamau cynnar prosiect mae'n bosibl datblygu cynlluniau lliniaru effeithiol; mae hyn ynddo'i hun yn sicrhau bod arbedion a gynhyrchir gan y prosiect yn cae l eu defnyddio i'r eithaf.

Mae llawer o gontractau'r Llywodraeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Prosiectau eu cyflenwyr gael eu hachredu yn unol â methodolegau a safonau penodol.

## Awgrymiadau Ardderchog

### Adolygwch unrhyw syniadau newydd yn feirniadol cyn cychwyn arnyn nhw fel prosiect

Bydd y cwestiynau yn Atodiad 3 yn eich cynorthwyo gyda hyn. Cofiwch, canllawiau yw'r rhain ac nid yw'n hanfodol bod pob cwestiwn yn cael ei ateb yn fanwl. Maen nhw yno i'ch galluogi i 'edrych yn y drych'

### Sicrhewch fod cynlluniau eich prosiect yn cwmpasu'r agweddau allweddol canlynol (hyd yn oed os yw hyn yn gyffredinol iawn):

- Cerrig milltir allweddol
- Yr elfennau allweddol i'w cyflawni a'u meini prawf ansawdd
- Cyflwyno adroddiadau
- Cyfanswm costau
- Cyfanswm y manteision

### Sicrhewch fod cynllun Rheoli Newid yn rhedeg ochr yn ochr ag unrhyw broses weithredu

Mae prosiectau'n arwain at newid; gall hyn fod yn newid gweithredol, diwylliannol neu o ran systemau a gall achosi llu o broblemau os nad eir i'r afael ag ef yn uniongyrchol. Gall cyfathrebu da â'r holl bartïon yr effeithir arnyn nhw, ynghyd ag ymdrin yn sensitif â materion personol fod yn hanfodol o ran sicrhau llwyddiant.

### Adolygwch gynnydd eich prosiect yn rheolaidd

Rhowch sylw penodol i:

- Risgiau a rhagdybiaethau
- Costau ac amserlenni
- Cwmpas

### Gwerthuso eich prosiect

Ar gyfer prosiect bach dylech gael adborth ysgrifenedig gan y bobl allweddol sy'n rhan o'r prosiect a pharatoi papur byr ar y 'gwersi a ddysgwyd' sy'n amlygu beth weithiodd yn dda (a pham) a beth aeth o'i le (a pham). Gall y gwersi hyn fod yn amhrisiadwy pan fyddwch yn cynnal prosiectau tebyg. Ar gyfer prosiectau mwy sicrhewch fod lefelau priodol o Adolygu ar ôl Gweithredu a bod hynny'n cael ei adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Bwrdd.

## Canllawiau Perthnasol Eraill

Canllaw SFBW Rheoi Newid
https://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/rheoli-newid

### Atodiad 1: Methodolegau Rheoli Prosiect

| Dull Methodolegau neu Sefydliad | URL |
|---|---|
| PRINCE2<br>Prosiectau mewn Amgylchedd dan Reolaeth | http://www.prince2.com/ |
| MSP<br>Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus | http://www.msp-officialsite.com/ |
| APM<br>Cymdeithas Rheoli Prosiect | http://www.apm.org.uk/ |
| PMI<br>Sefydliad Rheoli Prosiect | http://www.pmi.org/ |
| BS6079-1:2010<br>Safon Brydeinig ar gyfer Rheoli Prosiect | http://www.itgovernance.co.uk/shop/p-398-bs6079-1-bs-6079-1-guide-to-project-management-hardcopy.aspx#.UhYCaZK1E1w |
| CMMI<br>Sefydliad Model Aeddfedrwydd Galluogrwydd | http://cmmiinstitute.com/ |

## Atodiad 2: Offer Meddalwedd

| Offer | URL |
|---|---|
| IPMS<br>System Rheoli Prosiect Integredig | http://www.ipms-sa.com/ |
| Oracle Primavera<br>Offeryn Cynllunio Integredig | http://www.rpc.uk.com/software/primavera-p6-eppm.php |
| Prosiect Microsoft<br>Offeryn Rheoli Prosiect yn seiliedig ar PC | http://office.microsoft.com/en-gb/project/ |
| Microsoft SharePoint<br>Offeryn rhannu dogfennau yn seiliedig ar PC | http://office.microsoft.com/en-gb/sharepoint/ |
| AceProject<br>Offerynnau Rheoli Prosiect yn seiliedig ar gwmwl a SaaS | http://www.aceproject.com/ |
| 2-plan<br>Meddalwedd Am Ddim a Ffynhonnell Agored | http://2-plan.com/ |
| Brightwork pm Point<br>Ychwanegiad Sharepoint i brosiectau | http://www.brightwork.com/brightwork/index.htm |
| EPM Live<br>Yn integreiddio Prosiect Rheoli Prosiect a SharePoint | http://epmlive.com/ |
| FusionForge<br>Offerynnau cydweithredu am ddim a addaswyd o 'Forge' | http://fusionforge.org/ |
| GanttProject<br>Offeryn amserlennu am ddim | http://www.ganttproject.biz/ |
| Matchware Mindview<br>Meddalwedd Mapio Meddwl | http://www.matchware.com/en/products/mindview/default.htm |
| Project.net<br>Meddalwedd Rheoli Prosiect Ffynhonnell Agored | http://www.project.net/ |
| Project Open<br>Meddalwedd Rheoli Prosiect Ffynhonnell Agored | http://www.project-open.com/ |
| Projectmanager.com<br>Swît cynllunio prosiect yn seiliedig ar y we | http://www.projectmanager.com/ |
| Rational Plan<br>Cynllun amgenach i Brosiect Rheoli Prosiect | http://www.rationalplan.com/ |
| Web 2 Project<br>Meddalwedd Rheoli Prosiect Ffynhonnell Agored | http://web2project.net/ |

## Atodiad 3: Gwerthuso Menter – Dull Strwythurol o Werthuso

Datblygodd Swyddfa Masnach y Llywodraeth y cwestiynau canlynol i'w defnyddio wrth werthuso menter newydd o fewn eich busnes wrth i chi benderfynu a ddylai hwn fod yn brosiect neu beidio:

### Beth yw'r fenter?

- Ym mha ffyrdd y dymunwn i'r byd fod yn lle gwahanol o ganlyniad i'r fenter hon?
- Beth yw'r rheswm am y newid?
- A yw'r fenter yn cynnig gwerth am arian?
- Beth fyddech chi angen ei fesur er mwyn gwerthuso'r newidiadau?

### Pwy yw'r rhanddeiliaid?

- Pwy fydd yn cael ei effeithio gan hyn?
- Pwy sydd â'r grym neu'r dylanwad i hwyluso neu i stopio'r fenter?

### Pa ganlyniadau a ddymunir gan y rhanddeiliaid o flaenoriaeth?

- Beth yw dymuniadau'r rhanddeiliaid allweddol yn ein barn ni / a wyddom ni?
- A yw hyn yn newid ein dull?
- Sut mae hyn yn gysylltiedig ag eraill?
- Beth yw blaenoriaeth y fenter hon mewn perthynas ag eraill?

### Pa fecanweithiau, systemau, prosesau a newidiadau a ddynodir gan y fenter?

- Beth sydd angen i ni ei wneud neu ei newid?
- Allen ni wneud dim?
- Pa ddull cyflawni ddylen ni ei ddefnyddio?

### Beth yw sgôp y fenter?

- Beth sy'n cael ei gynnwys?
- Beth sy'n cael ei eithrio?
- Beth sy'n hanfodol, yn bwysig, yn werthfawr, yn fonws?

### Beth yw'r meini prawf o lwyddiant?

- Beth yw ffurf llwyddiant?
- Beth yw'r cerrig milltir?

### Beth yw'r rhag-amodau ar gyfer llwyddiant?

- Pa bethau mawr, os na fyddant yn bresennol, fyddai'n achosi i'r fenter fethu?

### Beth fydd angen i ni ei gynhyrchu?

- O ystyried yr hyn sydd angen i ni ei wneud neu ei newid, beth sydd angen i ni ei gyflawni?
- Pa bethau sy'n rhan o hynny?
- A ydych chi wedi ei osod mewn rhannau bach sy'n sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen er mwyn creu'r gwahanol ddarnau?

## Beth sydd ei angen gennym gan eraill?

- Pa bethau ni allwn neu ni ddylwn eu gwneud ein hunain?
- Beth ddymunwn ni i eraill ei wneud gyda'r pethau a gynhyrchwn ni neu a gynhyrchir ganddyn nhw?
- Pa fath o 'brynu i mewn' neu berchnogaeth a ddymunwn gan randdeiliaid?

## Pa mor fawr yw'r pethau hyn?

- Faint o ymdrech neu adnoddau sydd eu hangen?
- Pa sgiliau sydd eu hangen?
- A yw'r lefel hon o ymdrech/adnoddau yn gyson â sgôp y fenter (a yw'n parhau i gynnig gwerth am arian)?

## Ym mha drefn y dylid gwneud y pethau hynny?

- Beth ddylid ei wneud yn gyntaf?
- I ba raddau y gallwch wneud pethau gyda'i gilydd?
- A oes trefn benodol ar gyfer pethau sy'n arwain neu'n gyrru'r amserlen?

## Pa adnoddau sydd ar gael?

- A yw'r adnoddau a'r sgiliau angenrheidiol gennym (neu a allwn ni eu cael)?
- A oes angen i ni ailedrych ar y dull neu'r sgôp o gyflawni?
- A oes yna wahanol ffyrdd o wneud pethau a fyddai yn ein galluogi i gyflawni'n allbynnau gyda'r adnoddau a'r sgiliau sydd gennym?
-

## Pa dybiaethau a wnawn?

- Beth sydd gennym sy'n bwysig ar gyfer creu cynllun a gyrru pethau yn eu blaenau?
- A allwn ni wneud unrhyw beth i gadarnhau unrhyw un o'r tybiaethau hyn?
- Pa mor wahanol fyddai'r cynllun pe na bai'r tybiaethau hyn yn dal dŵr?
- Pa lefel o risg sydd ynghlwm â'r tybiaethau hyn?

## Beth yw'r cyfyngiadau?

- A oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, cymdeithasol neu amgylcheddol eraill?
- A yw pob un o'r cyfyngiadau yn rhai gwirioneddol?
- Pa fath o risgiau sydd ynghlwm â'r cyfyngiadau?

## Beth sy'n rhwystro llwyddiant?

- Beth arall fyddai yn ein rhwystro neu yn ein harafu at bwynt lle na allem lwyddo?

## Beth yw'r goblygiadau tebygol a sgil effeithiau ein llwyddiant?

- A allai unrhyw ganlyniadau negyddol ddeillio o'r fenter?
- A allem fod yn rhy lwyddiannus?
- Pa lefel o risg a awgrymir gan y sgil effeithiau hyn?

### Pwy sy’n debygol o gael eu hanfanteisio gan ein llwyddiant?

- Beth maent yn debygol o’i wneud a fyddai’n achosi problemau?
- Pa lefel o risg a awgrymir gan hyn?

### Beth yw tebygolrwydd ac effaith pob risg?

- Beth yw’r ystod o debygolrwydd a’r effaith o safbwynt risg graddfa uchel, ganolig neu isel?

### Beth ddylen ni ei wneud i leihau tebygolrwydd neu effaith y risg?

- Sut ddylen ni atal yr effaith?
- Beth yw eich dull o ailasesu tebygolrwydd ac effaith wedi i’r mesurau atal weithio?
- A ddylem ailystyried y dull o gyflawni, a’r sgôp neu’r fenter?

### Pa gynlluniau wrth gefn sydd eu hangen arnom?

- Beth allen ni ei wneud os bydd y risgiau’n cael eu gwireddu?
- Pa gynlluniau eraill ar wahân sydd eu hangen arnom ar gyfer y cynlluniau hyn wrth gefn?

### Beth yw’r cynllun?

- O ystyried yr atebion i’r cwestiynau blaenorol, beth yw’r cynllun?
- A yw’n gyflawn ac yn gyraeddadwy?
- Beth yw Cynllun B?

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**